Gwenyn Meirch

Parch at fywyd / Trefn natur

Penderfynodd Carwyn a'i ffrindiau fynd am dro i gael picnic ar lan yr afon. Roedd hi'n ddiwrnod braf, poeth. Ar ôl bod yn chwilio am bob math o greaduriaid yn nŵr yr afon roedd hi'n amser cinio a phob un ohonyn nhw'n edrych ymlaen i gael cinio ar lan yr afon. Brechdanau oedd gan y rhan fwyaf ohonyn nhw. Roedd rhai efo cacennau melys a phob math o ddiodydd. Ar ôl i'r bechgyn ddechrau bwyta dyma greaduriaid eraill yn dechrau hedfan o'u cwmpas.

Creaduriaid melyn a du. A phob hyn a hyn roedden nhw'n glanio ar y brechdanau, y cacennau a'u diodydd. A dyna lle roedd y bechgyn yn chwifio'u dwylo yn yr awyr.

"Nid dyna'r ffordd i gael gwared â nhw," meddai Berwyn. "Y peth gorau, medda mam, ydi aros yn llonydd. Wrth i ni chwifio'n dwylo'n wyllt mi yda ni yn eu ffyrnigo a dyna'r adeg maen nhw'n pigo."

Fel roedd \Berwyn yn gorffen ei frawddeg dyma Huw yn gweiddi dros y lle. "Aw – aw – aw. Mi ydw i wedi cael fy mhigo ar gefn fy llaw."

Roedd dagrau yn ei lygaid. Roedd y pigiad yn dechrau chwyddo a chochi yn ymddangos o'i gwmpas.

"Oes gen ti finegr?" gofynnodd Tim. "Mae mam yn dweud mai finegr ydi'r peth gorau at bigiad gwenyn."

Ond doedd gan neb finegr.

A dyna lle bu Huw yn dioddef.

"Yli," meddai Tim, "mae'r colyn, sef rhan o'r gwenyn sydd wedi dy bigo di yng nghanol y chŵydd."

Oedd roedd yna ddarn fel blewyn yng nghanol y chŵydd. Doedd Huw ddim eisiau bwyd. Aeth i eistedd ar ei ben ei hun at lan yr afon.

Bu gweddill y bechgyn yn trafod ymhlith ei gilydd. Un o'r cwestiynau oedd, a'i brathu ynteu pigo oedd y gwenyn. Roedd gan Tim ateb i bopeth. "Pigo mae'r wenynen efo'i cholyn ac ar

ôl iddi bigo mae'n gadael ei cholyn yn eich cnawd."
Ond y cwestiwn oedd yn poeni'r bechgyn oedd pam fod yna gymaint o greaduriaid yn y byd sydd mor amhoblogaidd?
Mewn gwledydd poeth roedd gwahanol fath o bryfed yn gwneud niwed mawr i bobl. Roedd Berwyn wedi darllen am y mosgito. Soniodd Tim am rai pryfed sy'n gallu byw o dan groen pobl yn y gwledydd poeth a bwyta eu cnawd.
Erbyn hyn roedd Huw wedi ymlwybro o lan yr afon at y bechgyn. Roedd yn teimlo'n well erbyn hyn a'r chŵydd wedi diflannu.
"Mi fydda i'n casáu'r gwenyn meirch am byth," meddai.
"Y babi clwt," meddai gweddill y bechgyn.

Gwna fi, O Dduw, yn garedig tuag at bob anifail hyd yn oed y rhai sy'n fy mhigo. Amen.

✦ Ydych chi'n meddwl fod lliwiau'r wenynen yn arwydd o berygl i greaduriaid eraill?
✦ Rhestrwch anifeiliaid sy'n gwneud drwg i bobl.
✦ Ydych chi wedi cael eich pigo gan wenynen. Sut deimlad oedd cael eich pigo?